**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

11 Mehefin 2025

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Ebrill yn nodi'r meysydd y byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth amdanynt yn dilyn sesiwn y Pwyllgor ar 28 Mawrth. Mae ymatebion i geisiadau'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn yr Atodiad amgaeedig.

Rwy'n edrych ymlaen at ein sesiwn nesaf ddydd Gwener 11 Gorffennaf.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

1. ***Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol posibl ar gyfer darpariaethau yn y Bil Data (Defnydd a Mynediad) sy'n ymwneud â'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.***

   Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (LCM Rhif 3) ar 3 Ebrill 2025 ynglŷn â gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 25 Mawrth 2025, o ganlyniad i drafodaethau cadarnhaol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (Rhan 3) yn y Bil.

   Mae'r gwelliannau hyn yn darparu mesurau diogelu cyfansoddiadol angenrheidiol ac maent yn sicrhau bod buddiannau datganoledig yn cael eu diogelu wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth bellach sy'n ymwneud â chreu'r Gofrestr. O ganlyniad, roedd LCM Rhif 3 yn argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r Bil a rhoi ei chydsyniad. Trafododd y Senedd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil ar 6 Mai 2025 a rhoddodd ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

2. ***Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am adrodd ar gyfarfodydd rhynglywodraethol, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflymu'r broses honno fel bod gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi cyn gynted â phosibl.***

   Mae tîm cysylltiadau rhynglywodraethol canolog Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant rheolaidd i swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gadarn am ymrwymiadau o dan y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol. Mae'r arweinwyr polisi sy'n gweithio ar gyfarfodydd cysylltiadau rhynglywodraethol ffurfiol yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'r angen i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu. Yn dilyn y pwyntiau a godwyd yn sesiwn y Pwyllgor, bydd swyddogion y tîm cysylltiadau rhynglywodraethol canolog yn pwysleisio ymhellach, drwy drafodaethau mewnol, hyfforddiant a chanllawiau, mor bwysig yw rhoi gwybod yn gyflym am wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

   Rydym yn gwneud pob ymdrech i roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw o'r cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a phwyllgorau perthnasol eraill. Mae yna achlysuron pan nad yw'n bosibl rhoi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw. Er enghraifft, pan fydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu neu eu cadarnhau ar fyr rybudd, neu os nad yw'r agenda y cytunir arni ar y cyd wedi'i chadarnhau eto.

   Byddwn yn darparu diweddariad ar ôl pob cyfarfod, sy'n cynnwys crynodeb o'r cyfarfodydd. Bydd lefel y manylder yn amrywio oherwydd natur y trafodaethau a'r ymrwymiadau o ran cyfrinachedd. Mae'r cyfyngiad hwn yn cael ei dderbyn a'i adlewyrchu yn y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol ei hun. Ambell waith, bydd oedi'n digwydd wrth gytuno ar gyd-hysbysiadau ffurfiol a'u cyhoeddi yn dilyn cyfarfodydd rhynglywodraethol, gan fod angen eu cymeradwyo a chytuno arnynt ar draws y pedair llywodraeth. Gall hyn arwain at oedi cyn darparu'r diweddariad ar ôl y cyfarfod. Yn yr achosion hynny, bydd tîm cysylltiadau rhynglywodraethol canolog Llywodraeth Cymru bob amser yn gweithio gyda swyddogion polisi arweiniol ar draws pob llywodraeth i nodi'r ffordd ymlaen ac i ystyried opsiynau eraill i sicrhau bod y Senedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf cyn gynted â phosibl.

### 3. *Adroddiad cynnydd ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru;*

| Argymhelliad | Cynnydd |
|---|---|
| **1. Arloesi democrataidd**<br><br>"Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r capasiti ar gyfer arloesi democrataidd ac ymgysylltu'n gynhwysol â'r gymuned yng Nghymru. Dylai hyn ddefnyddio panel cynghori arbenigol, a dylid ei ddylunio mewn partneriaeth â'r Senedd, llywodraeth leol a phartneriaid eraill. Dylai strategaethau newydd ar gyfer addysg ddinesig fod yn flaenoriaeth i'r gwaith hwn, a dylai gael ei adolygu'n rheolaidd gan y Senedd.**"**<br><br>**2. Egwyddorion cyfansoddiadol**<br><br>"Gan ddefnyddio'r arbenigedd hwn, dylai Llywodraeth Cymru arwain prosiect i gynnwys dinasyddion yn y gwaith o ddrafftio datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant i Gymru." | Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth i gynghori Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ar ehangu'r defnydd o arloesi democrataidd, ac i wella ymgysylltiad dinesig mewn bywyd cyhoeddus.<br><br>Penodwyd Dr Anwen Elias yn gadeirydd y grŵp (Datganiad Ysgrifenedig:Diwygio Cyfansoddiadol: Penodi Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth (19 Tachwedd 2024) \| LLYW. CYMRU) ac mae'r aelodau eraill wedi'u recriwtio drwy gystadleuaeth agored (Datganiad Ysgrifenedig: Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth (30 Ebrill 2025) \| LLYW. CYMRU).<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp ar 1 Mai 2025, a bydd yn paratoi rhaglen waith hyd y gwanwyn 2026 i'w hystyried gan y Dirprwy Brif Weinidog. |
| **3. Diwygio'r Senedd**<br><br>"Rydym yn argymell y dylid darparu adnoddau ar gyfer yr adolygiad arfaethedig o ddiwygio'r Senedd i sicrhau dadansoddiad cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth o effaith y newidiadau, gan gynnwys o safbwynt y pleidleiswyr ac atebolrwydd democrataidd." | Cyfarfu'r Dirprwy Brif Weinidog â'r Llywydd i drafod y camau arfaethedig nesaf o ran bwrw ymlaen ag argymhelliad 3. Rhagwelir y bydd prosiect ymchwil yn cael ei gynnal, wedi'i ariannu a'i arwain gan Lywodraeth Cymru, gan ymgynghori'n agos â Chomisiwn y Senedd. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y gwaith elwa o'r arbenigedd a'r profiad a rennir ar draws y ddau sefydliad. Bydd rhagor o wybodaeth am yr ymchwil arfaethedig ar gael maes o law. |
| **4. Cysylltiadau rhynglywodraethol**<br><br>"Dylai Llywodraeth Cymru gynnig i lywodraethau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon y dylai Senedd San Steffan ddeddfu ar gyfer mecanweithiau rhynglywodraethol er mwyn sicrhau dyletswydd o gydweithredu a pharch cydradd rhwng llywodraethau'r DU." | Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i waith rhynglywodraethol cryfach, gyda Chyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau.<br><br>Mae cysylltiadau rhynglywodraethol wedi gwella ers i Lywodraeth bresennol y DU ddod i rym – a cheir patrwm cyffredinol cryfach o gyfarfodydd gan ddefnyddio'r peirianwaith rhynglywodraethol y cytunwyd arno fel rhan o'r Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol. Mae Prif Weinidog Cymru wedi cymryd rhan mewn dau gyfarfod o'r cyngor newydd, Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau. |
| **5. Confensiwn Sewel**<br><br>"Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i gyflwyno i Senedd San Steffan ddeddfwriaeth i nodi bod | Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ar Gonfensiwn Sewel. Codwyd mater y Memorandwm yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 27 Chwefror a disgwylir y bydd |

| | |
|---|---|
| angen cydsyniad y sefydliadau datganoledig ar gyfer unrhyw newid i'r pwerau datganoledig, ac eithrio pan fydd angen hynny am resymau y cytunir arnynt rhyngddynt, fel: rhwymedigaethau rhyngwladol, amddiffyn, diogelwch gwladol neu bolisi macroeconomaidd." | trafodaethau rhynglywodraethol ar hyn yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf. |
| **6. Rheolaeth ariannol**<br><br>"Dylai Llywodraeth y DU ddileu'r cyfyngiadau ar reoli cyllideb Llywodraeth Cymru, ac eithrio lle ceir goblygiadau macro-economaidd." | Roedd maniffesto Llafur y DU yn cydnabod bod fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru wedi dyddio, ac roedd yn cynnwys ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth i'w ddiweddaru.<br><br>Yn dilyn cais gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, mae Trysorlys EF wedi cytuno i roi mynediad llawn i Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2025-26.<br><br>Ers hynny, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn gofyn am i'n terfynau benthyca a chronfeydd wrth gefn gael eu haddasu ar sail chwyddiant, ac am i'n terfyn blynyddol ar gyfer tynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn gael ei ddiddymu'n barhaol. Rydym yn parhau i drafod y materion hyn gyda Llywodraeth y DU.<br><br>. |
| **7. Darlledu**<br><br>"Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gytuno ar fecanweithiau ar gyfer llais cryfach i Gymru ar bolisi, craffu ac atebolrwydd ym maes darlledu, a dylai gwaith cadarn barhau ar lwybrau posibl at ddatganoli." | Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarlledu a'r cyfryngau ar 12 Mai 2025. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth y DU ac Ofcom, ar ystod o faterion polisi darlledu. |
| **8. Ynni**<br><br>"Dylai llywodraethau Cymru a'r DU sefydlu grŵp arbenigol i roi cyngor ar frys ar sut y gellid diwygio'r setliad datganoli ac ymgysylltu rhynglywodraethol mewn perthynas ag ynni i baratoi ar gyfer arloesi technegol cyflym ym maes cynhyrchu a dosbarthu ynni, er mwyn sicrhau bod Cymru'n gallu gwneud y mwyaf o'i chyfraniad at sero net ac at gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol. Dylai cylch gwaith y grŵp gynnwys cynghori ar yr opsiynau ar gyfer datganoli Ystad y Goron, a ddylai ddod yn gyfrifoldeb i lywodraeth ddatganoledig Cymru, fel y mae yn yr Alban." | Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cael sawl trafodaeth â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei safbwynt yn glir, sef nad yw'n cefnogi datganoli Ystad y Goron ar hyn o bryd. Er hynny, mae gennym ddeialog agored, adeiladol a pharhaus gyda Llywodraeth y DU, a byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos.<br><br>Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i benodi Comisiynydd newydd i Ystad y Goron i gynrychioli buddiannau Cymru. Mae hwn yn gam ymlaen i'w groesawu er mwyn gwella atebolrwydd ac rydym yn awyddus i sicrhau bod y Comisiynydd yn adrodd i Weinidogion Cymru a'r Senedd. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn o hyd mai datganoli sy'n cynnig yr ateb gorau i Gymru ac i'r DU.<br><br>Argymhelliad y Comisiwn y dylai Panel Arbenigol edrych ar y materion cymhleth hyn yn eu cyfanrwydd sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen. Mae swyddogion yn ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen yn y maes hwn. |

| | |
|---|---|
| | Yn y cyfamser rydym yn parhau i weithio gydag Ystad y Goron i gyflawni dros Gymru. Rydym wedi galw ers amser maith am fwy o eglurder ar y biblinell fuddsoddi ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr yn y dyfodol. Mae Ystad y Goron wedi gwrando, a thrwy'r Map Trywydd Morol mae wedi darparu gwybodaeth am y biblinell a fydd yn helpu i sicrhau bod buddsoddi'n cael ei ddadrisgio. Dyma faes lle byddwn yn parhau i weithio gydag Ystad y Goron, unwaith y bydd y broses lesio Rownd 5 bresennol wedi dod i ben. |
| **9. Cyfiawnder a Phlismona**<br><br>"Dylai Llywodraeth y DU gytuno i ddatganoli'r cyfrifoldeb dros gyfiawnder a phlismona yn ddeddfwriaethol ac yn weithredol i Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru, yn unol ag amserlen y bydd y naill lywodraeth a'r llall yn cytuno arni i ddatganoli pob rhan o'r system gyfiawnder, gan ddechrau gyda phlismona, y gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid, gyda'r cyllid angenrheidiol wedi'i sicrhau, a darpariaeth ar gyfer cydlywodraethu lle bo angen ar gyfer gweithrediadau effeithiol." | Roedd maniffesto Llafur y DU yn 2024 yn cynnwys ymrwymiadau ynglŷn ag archwilio'r posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau prawf, fel rhan o'r adolygiad strategol i'r maes prawf. Mae'r rhain yn ymrwymiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u croesawu.<br><br>Amcan Llywodraeth Cymru yn y pen draw yw sicrhau datganoli plismona a chyfiawnder - yn ei gyfanrwydd, fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Mae'n amlwg bod angen dull graddol o gyflawni newid ar y raddfa hon. Yn ein barn ni, nid un digwyddiad yw diwygio'r system gyfiawnder yng Nghymru; yn hytrach, bydd yn broses o newid dros amser, gan flaenoriaethu'r meysydd hynny lle gallwn sicrhau'r gwelliannau mwyaf o ran canlyniadau i bobl Cymru. |
| **10. Gwasanaethau rheilffyrdd (seilwaith)**<br><br>"Dylai Llywodraeth y DU gytuno i ddatganoli'r cyfrifoldeb dros wasanaethau rheilffyrdd a'r seilwaith rheilffyrdd yn llawn i Gymru gyda chyllid teg a chydlywodraethu yng nghyswllt gwasanaethau trawsffiniol." | Rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Gwasanaethau Teithwyr ar 28 Tachwedd 2024, gan gyflawni ar unwaith un o geisiadau hirsefydlog Llywodraeth Cymru: dod â masnachfreintiau sector preifat i ben a gwneud gwasanaethau rheilffyrdd yn wasanaethau cyhoeddus unwaith eto.<br><br>Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth wedi cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a Gweinidog Rheilffyrdd Llywodraeth y DU i nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio rheilffyrdd yng Nghymru.<br><br>Mae hyn yn cynnwys sefydlu Uned Fusnes i Gymru a'r Gororau o fewn Great British Railways – uned wedi'i grymuso a fydd yn cyflawni'n unol â blaenoriaethau Cymru ac a fydd yn briodol atebol i Weinidogion Cymru ac i'r Senedd. Yn ogystal, bydd yn creu rhaglen o welliannau a ariennir ar gyfer Cymru a rôl statudol fwy i Weinidogion Cymru o ran manylebu a goruchwylio'r holl wasanethau teithwyr trawsffiniol i mewn ac allan o Gymru.<br><br>Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Fil Diwygio Rheilffyrdd y DU wedi dod i ben ac rydym yn aros am y newidiadau a fydd yn cael eu gwneud yn sgil yr ymgynghoriad a'n sylwadau ninnau. Mae ymgysylltu yn parhau yn rheolaidd. |

4. ***Diweddariad ar unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd ar Gonfensiwn Sewel.***

   Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ar Gonfensiwn Sewel. Codwyd mater y Memorandwm yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 27 Chwefror a disgwylir y bydd trafodaethau rhynglywodraethol ar hyn yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf.

5. ***Yn ystod y cyfarfod, fe wnaethoch chi nodi y byddech yn darparu gwybodaeth am bwy yr oeddech wedi siarad â nhw yn Swyddfa'r Prif Weinidog, 10 Downing Street ynglŷn â'r diwygiadau lles diweddar. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth honno:***

   **Cynhaliwyd yr alwad ffôn rhwng Prif Weinidog Cymru a swyddogion perthnasol yn 10 Downing Street. Bydd y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn siarad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau yr wythnos hon.**

6. ***Mewn perthynas â chyhoeddiad y DU ar ddiwygio lles, roedd y Pwyllgor yn siomedig nad oedd asesiad effaith yn ymwneud â Chymru ac economi Cymru ar y gweill. Nododd y Pwyllgor y rhesymau pam nad yw manylion adolygiadau gwariant ledled y DU yn cael eu rhannu â Llywodraethau datganoledig cyn i unrhyw gyhoeddiadau gael eu gwneud. Fe wnaethoch ddweud yn eich tystiolaeth y byddech yn gwneud sylwadau i Drysorlys y DU i gyhoeddi asesiadau effaith ar gyfer Cymru ochr yn ochr â chyhoeddiadau yn y dyfodol, fel bod yr wybodaeth hon ar gael ar unwaith, a byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar y trafodaethau hynny.***

   O ran materion a gedwir yn ôl, mater i Lywodraeth y DU yw arwain ar ddarparu asesiad effaith. Fodd bynnag, fel y gwnaethom mewn perthynas â’r cynlluniau arfaethedig i ddiwygio’r system budd-daliadau iechyd ac anabledd, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r achos dros gynnal dadansoddiad ar lefel Cymru.

7. ***Pa ystyriaethau a thrafodaethau sydd wedi digwydd mewn perthynas ag ailgyflwyno Cronfa Ardoll Agregau Cymru?***

   Ar hyn o bryd rydym yn archwilio'r profiad yn yr Alban mewn perthynas ag ardoll agregau ac yna byddwn yn ystyried unrhyw ddatblygiad polisi a allai fod o fudd i Gymru.